

Trysor Cudd

Bywyd ysbrydol a Sefyll gyda'n gilydd

- Darganfod beth sy'n gyffredin ar draws amrywiaeth y teulu Cristnogol
- Dathlu ymroddiad y rhai hynny sy'n gweithio i greu byd gwell
- Gwneud amser a gofod i groesawu trysor presenoldeb Duw
- Dysgu sut i fyw fel lefain o dangnefedd a chyfeillgarwch at bawb



Dyddiadau a Rhaglenni

1. *Y penwythnos llawn (yn agored i bobl ifanc rhwng 16 a 35 oed)* Gwener 28 Ebrill - Llun 1 Mai 2017
 - cyrraedd Birmingham nos Wener (neu fore Sadwrn)
 - gadael dydd Llun – diwedd y bore / canol dydd
2. *Rhaglen undydd (yn agored i bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed)* Dydd Sadwrn 29 Ebrill
 - cyrraedd cyn 10.45am; ymadael tua 8.30pm – yn dilyn yr Hwyl Weddi
3. *Gweddïau yng nghanol y ddinas (yn agored i bawb, heb gofrestru)*

Llety

- Bydd pawb dros 18 yn aros gyda phobl leol yn un o 8 ardal y ddinas (dewch â sach gysgu)
- Bydd pawb sy'n 16-17 mlwydd oed yn cael dod i'r cyfarfod dim ond gydag oedolyn sy'n arweinydd ac sy'n trefnu llety i'r grŵp. Am help gyda llety, cysylltwch â: taizebirmingham@gmail.com

Rhaglen

Gweddï gyda'n gilydd mewn eglwysi yng nghanol y ddinas; gweithdai yn trafod cwestiynau sy'n ymwneud â ffydd ac ymrwymiad cymdeithasol; lle i fyfyrion ar y Beibl ac i fod yn ddistaw; cyfarfod mewn grwpiau bychain gyda rhai o gefndiroedd eraill.

Helpu

Bydd sawl tîm yn gweithio cyn ac yn ystod y penwythnos: dosbarthu bwyd, stiwardio ar gyfer y gweithdai a'r manau addoli, man gwybodaeth, cerddoriaeth ag ati. Os hoffech chi helpu, nodwch hyn ar eich ffurflen gofrestru, os gwelwch yn dda. Os ydych yn byw yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr ac am helpu cyn y cyfarfod, ysgrifennwch at: taizebirmingham@gmail.com

Cost

Mae eich cyfraniad yn cynnwys prydau bwyd (cinio a swper) a thocyn teithio (os bydd ei angen).

Y penwythnos llawn: £35 (£25 heb docyn teithio); y rhaglen undydd: £14.

Cofrestru

Am fwy o fanylion ac er mwyn cofrestru, ewch i: www.taize.fr/birmingham

Dewch â Thrysor Cudd gyda chi!

Mewn byd llawn rhwygiadau dwfn, gofynnwn i'r rhai sy'n cymryd rhan yn Trysor Cudd i wireddu rhyw ffordd newydd o ddangos cyfeillgarwch neu gyd-sefyll. ac i ddod â'r profiad hwn gyda nhw i'r cyfarfod.